# Cyfleoedd i Reoli Gwariant ar Asiantaethau Cyflenwi mewn Ysgolion. Canllawiau i Arweinwyr Ysgolion.

## Cyflwyniad

Nod y prosiect a'r papur hyn oedd sefydlu'r prif themâu a'r prif resymau dros yr angen am wariant ar gyflenwi mewn ysgolion, tynnu sylw at arfer da yn ein hysgolion o ran rheoli gwariant ar gyflenwi, a datblygu argymhellion ynghylch camau neu ddulliau a allai gefnogi gostyngiad mewn costau yn y maes hwn i Ysgolion. Roedd y dull a ddefnyddiwyd wrth wneud yr ymchwil hwn yn gyfuniad o ddadansoddi data a chyfweliadau rhanddeiliaid gyda charfan o Benaethiaid a rheolwyr Busnes/Gweinyddol sy'n rheoli'r cyllidebau cyflenwi mewn ysgolion.

## Cefndir

Anogir ysgolion i gaffael cyflenwi gan asiantaethau drwy'r 23 asiantaeth sydd ar Fframwaith Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru (WGCD) ar gyfer gweithwyr dros dro ac athrawon cyflenwi. Mae'r fframwaith yn pennu isafswm cyflog i athrawon ac yn amlinellu'r tâl uchaf y bydd pob asiantaeth yn ei godi bob dydd. Mae'r ffioedd hyn yn amrywio o £22 i £72 y dydd yn ogystal â chostau cyflog, yswiriant gwladol a phensiwn y gweithwyr asiantaeth.

Mae costau caffael gweithwyr asiantaeth drwy'r 23 asiantaeth gyflenwi gymeradwy ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi codi o £4.9 miliwn yn 2019-20 i £9.6 miliwn yn 2022-23, sef cynnydd o 93%. Cafodd 46% o'r gwariant yn 2022-3 ei wrthbwyso gan incwm o yswiriant neu grantiau. Fodd bynnag, nid yw'r incwm o'r ffynonellau hyn cymaint â'r cynnydd mewn cyflog staff, ac nid yw'r incwm a geir bellach yn talu cost cyflenwi staff eraill neu ychwanegol o dan yr amgylchiadau hyn.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion anghenion posibl tebyg o ran gofynion cyflenwi.

- **Cyflenwi adeg Absenoldeb** – Yr angen i ddarparu cyflenwi ar gyfer staff sy'n absennol er mwyn hwyluso parhad dysgu dosbarth cyfan neu gymorth addysgol un i un. Mae rheswm a hyd yr absenoldeb yn dylanwadu ar y math o gyflenwi sydd ei angen.
- **Rheoli Swyddi Gwag** – Felly o ran darparu staffio drwy asiantaethau lle mae swydd barhaol ar strwythur yr ysgol dal yn wag a chostau'r asiantaeth, gellir gwrthbwyso hynny gan drosglwyddiad o gostau staffio a gyllidebwyd.
- **Ychwanegedd** – Defnyddio cyflenwi gan asiantaeth i ddarparu staff ychwanegol y tu hwnt i strwythur sefydliadol yr ysgol. Gall hwn fod yn wariant sydd wedi'i gyllidebu neu sydd heb ei gyllidebu.

Yr ymagwedd at ddiwallu'r anghenion hyn sy'n amrywio. Roedd pob ysgol yn derbyn bod angen rhyw lefel o gyflenwi ar gyfer absenoldebau yn yr ysgolion, ac mae proffil y cyflenwi mewn ysgolion, a'r ffordd y rheolir y broses o gaffael cyflenwi gan asiantaethau, yn cael dylanwad sylweddol ar y gwariant cyffredinol a welir. Mae lle clir ar gyfer darparu rhywfaint o gyflenwi a staffio drwy asiantaethau, ond ni ddylai ysgolion deimlo na allant reoli'r costau sydd ynghlwm wrth hynny.

## Argymhellion

**Argymhellion i Ysgolion**

Bwriad yr argymhellion canlynol yw darparu amrywiaeth o opsiynau i ysgolion i'w helpu i reoli eu hanghenion cyflenwi a sicrhau eu bod yn cael gwerth gorau.

- **Codi proffil asiantaeth mewn ysgolion.** Mae angen i'r holl uwch-arweinwyr a staff sy'n ymwneud â chynllunio'r angen am asiantaeth fod yn hollol ymwybodol o'r goblygiadau o ran costau a sylweddoli ei fod yn adnodd gwerthfawr. Mewn rhai mannau mewn mwy o graffu ar brynu ychydig o werslyfrau o adnoddau'r cwricwlwm na'r hyn sy'n digwydd ar gyflenwi, ond eto mae goblygiadau cost cyflenwi yn uwch o lawer. Mae angen prosesau clir ar gyfer awdurdodi caffael cyflenwi sy'n cynnwys y costau cysylltiedig a rhesymau clir dros y cyflenwi i gefnogi rheolaeth gadarn ar y cyflenwi

- **Deall yr angen am gyflenwi gan asiantaethau** Mae'r rheswm pam mae angen cyflenwi gan asiantaethau yn allweddol i ddeall a rheoli'r anghenion. Sicrhewch fod cofnodion clir yn cael eu cadw o'r rheswm pam mae angen cyflenwi mewn fformat sy'n addas fel y gellir dadansoddi'r rhain i weld patrymau. Mewn rhai amgylchiadau, cyflenwi gan asiantaeth yw'r ateb mwyaf cost-effeithiol. Defnyddiwch y patrymau i sicrhau bod yr ysgol wedi cynnwys ymrwymiad cyllidebol priodol yn y gyllideb waith ar gyfer cyflenwi gan asiantaethau lle mae hynny'n hysbys neu lle gellir ei ragweld. Sicrhau bod trosglwyddiadau'n cael eu cwblhau pan symudir costau o fewn y flwyddyn o staffio i gyflenwi gan asiantaethau. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o orwariant sydd heb ei gynllunio/heb ei reoli.

- **Byddwch yn ymwybodol o danariannu.** Os caiff absenoldeb ei ariannu, er enghraifft presenoldeb mewn cwrs lle mae'r darparwr yn cynnig ad-daliad, neu bolisi yswiriant a fydd yn talu oherwydd absenoldeb, gwiriwch fod y swm sy'n cael ei gynnig yn talu cost y cyflenwi gan yr asiantaeth. Os yw hwn yn absenoldeb wedi'i gynllunio, mae cyfle i gael cyflenwi gan amryw asiantaethau neu ffynonellau eraill i helpu i leihau costau. Lle daw staff asiantaeth i mewn i ddarparu ychwanegiad ar gyfer grantiau, sicrhewch fod y gwariant yn cyd-fynd â'r cyllid grant.

- **Rheolwch lefel yr angen.** Sicrhewch fod staff yn deall bod disgwyliad y bydd y cyflenwi'n gyfyngedig wrth ddylunio digwyddiadau/gweithgareddau ysgol. Mae ysgolion sy'n mynd ati i reoli eu cyflenwi cynlluniedig yn gwneud hyn ar lefel uwch gyda chynlluniau tymor hir, canolig a byr.

  Enghreifftiau o arferion da –
  **Cynllunio tymor hir -** Cynlluniwch amserlen flynyddol yr ysgol gyda chyflenwi mewn golwg. Peidiwch â gadael i ddigwyddiadau redeg ar yr un pryd os nad ydynt yn cefnogi anghenion cyflenwi ei gilydd. Unwaith y cytunir ar hynny, amlygwch ar yr amserlen lle na chaniateir cyflenwi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd

a chyrsiau, a sicrhewch fod staff yn ymwybodol y gwrthodir ceisiadau a gyflwynir ar gyfer yr wythnosau hyn. Cofiwch gynnwys amser ar gyfer cyfarfodydd lle bo hynny'n bosibl er mwyn atal gofyn am amser ychwanegol.

**Cynllunio tymor canolig -** Wrth gwblhau'r trefniadau ar gyfer digwyddiadau, sicrhewch fod staff yn ymwybodol o anghenion cyflenwi ac yn eu cyfyngu. Er enghraifft, sicrhau lle bo hynny'n bosibl, os oes angen myfyrwyr ar gyfer digwyddiad, fod dosbarthiadau cyfan yn mynd yr un pryd, fel y gellir rhyddhau'r athro dosbarth i gyflenwi naill ai gyda'i grŵp neu ôl-lenwi ar gyfer aelod arall o staff. Neu caiff cynigion eu cynnwys i leihau nifer y dosbarthiadau. Os cyflwynir ceisiadau am gyfarfod, sicrhewch mai'r amser a ddewisir yw'r mwyaf effeithiol o ran lleihau ymrwymiadau cyflenwi.

**Cynllunio tymor byr** – Byddwch yn barod i ddweud na ac i wneud newidiadau i gynlluniau a digwyddiadau os yw'r amgylchiadau wedi newid. Mae gan yr holl ysgolion sy'n rheoli eu cyllidebau cyflenwi staff uwch sy'n cadw llygad agos ar y trefniadau ac sy'n herio ceisiadau ac yn ceisio edrych ar bob opsiwn mewnol / cost isaf yn gyntaf cyn penodi asiantaeth neu athro cyflenwi achlysurol.

- **Rheoli'r costau cyflenwi.**

  Mae gan ysgolion y mae eu gwariant ar asiantaethau'n isel systemau cyflenwi mewnol cryfion sy'n defnyddio neu'n cynhyrchu capasiti ac yn lleihau'r angen am gyflenwi adhoc gan asiantaethau. Gall y systemau hyn hefyd hyrwyddo tegwch a rhoi cyfle i staff ennill sgiliau a phrofiadau newydd a chael eu had-dalu'n briodol am hynny.

  Enghreifftiau o'r systemau mewnol sydd ar waith yn ysgolion Sir Gaerfyrddin i ddefnyddio/cynhyrchu capasiti.

  - **Tegwch o ran llwyth gwaith** – Yn achos pob aelod o staff nad oes ganddynt amserlen lawn ar ôl pennu'r amser PPA, sicrhewch fod cyflenwi'n cael ei bennu i'w hamserlenni a gwneir defnydd o hynny os bydd yr angen am gyflenwi'n codi. Mae hyn yn sicrhau mwy o degwch ymysg y staff gan nad yw athrawon sydd â llwyth addysgu llawn yn cael eu galw i gyflenwi ac nid ystyrir bod amser 'rhydd' gan athrawon sydd heb. Wrth lunio'r amserlen, ystyriwch rannu'r PPA a'r amser rheoli mewn modd fel bod 'sesiynau cymorth cyflenwi' yn gyfartal ar draws yr amserlen wythnosol.
  - **PPA%** - Pan fo strwythur diwrnod ysgol yn golygu bod sesiynau PPA yn cyfateb i fwy na 10% o'r **amser addysgu wedi'i amserlennu,** cytunwch ar ddechrau'r flwyddyn nifer blynyddol o sesiynau y gellir eu hadfer ar gyfer cyflenwi os oes angen.
  - **Cynlluniau amser euraidd** - Caniatáu i staff wirfoddoli ildio amser rheoli neu PPA, i'w galluogi i fancio hyn a chael amser yn ôl fel amser i ffwrdd ar adeg gyfleus i bawb. Mae'n bwysig wrth wneud hyn bod staff yn ymwybodol o adegau pan na fyddai'n dderbyniol iddynt gymryd yr amser yn ôl (gweler Cynllunio tymor hir uchod).
  - **Goruchwyliaeth/Cyflenwi Cynorthwyydd Addysgu –** Pan fydd ysgolion yn gweld bod ganddynt 1 neu fwy o athrawon cyfwerth ag amser llawn yn

absennol am fwy na 141 o ddiwrnodau'r flwyddyn, argymhellir recriwtio goruchwylydd cyflenwi i gyflenwi ar ran yr athro. Mae gan oruchwyliwr cyflenwi cyflogedig wybodaeth ymarferol dda am ei ysgol, systemau'r ysgol, a'i fyfyrwyr.  Maent yn rhoi lefel o gysondeb ac fe'u defnyddir ar hyn o bryd mewn sawl ysgol i ddarparu addysgu gweithredol, gan gyflawni'r hyn a wneir gan eu cydweithwyr addysgu am hyd at 5 diwrnod.

Lle mae nifer fawr o absenoldebau dyddiol yn nhîm y Cynorthwywyr Addysgu, gall Cynorthwyydd Addysgu ddarparu adnodd o safon uwch ar gyfer yr ysgol. Gall Cynorthwyydd Addysg ychwanegol symud rhwng dosbarthiadau a myfyrwyr i gefnogi yn ôl yr angen bob dydd.

- **Camu lan –** Lle mae'r angen cyflenwi yn llai aml, gall Cynorthwywyr Addysgu o dîm presennol yr ysgol oruchwylio'r cyflenwi ar sail camu lan adhoc. Mae hyn yn galluogi'r aelod o staff i ennill rhagor o sgiliau a derbyn taliadau sy'n ychwanegol at ei gyflog arferol.  Drwy hyfforddi nifer o staff o'r fath gall fod yn bosibl i nifer o Gynorthwywyr Addysgu rannu'r angen am gyflenwi trwy eu rhyddhau o ddosbarthiadau eraill am ran o ddiwrnod heb orfod eu hôl-lenwi. Mae parhad staffio o fudd i'r myfyrwyr sy'n ymateb yn well i staff maent yn eu hadnabod, ac mae staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu cydweithwyr a'u bod yn llai rhwystredig pan fydd ansawdd gwael y cyflenwi allanol o dro i dro yn arwain at ddiwrnod gwael i'w myfyrwyr.
- **Lleihau dosbarthiadau –** Deall ble yn yr ysgol mae'r dosbarthiadau'n fach a defnyddio hyn i ryddhau athrawon drwy gyfuno dosbarthiadau naill ai ar sail adhoc neu yn y tymor hwy. Dewch â 2-3 grŵp at ei gilydd i ofod mwy fel neuadd i weithio'n annibynnol gyda goruchwyliaeth gyfyngedig neu i gael gwersi sydd yn fwy tebyg i ddarlithoedd.
- **Does dim byd yn haearnaidd –** mae ysgolion y mae eu gwariant ar asiantaethau yn fach yn mynd ati i symud staff o gwmpas yn ystod yr wythnos waith i sicrhau bod anghenion y disgyblion a'r ysgol yn cael eu diwallu yn y modd mwyaf priodol. Mae hyn yn golygu paru lefelau staffio â phresenoldeb disgyblion a sicrhau taw dim ond pan na ellir diwallu'r angen yn fewnol y gwneir cais am gyflenwi ychwanegol gan Gynorthwyydd Addysgu.
- **Hyrwyddwyr Chwaraeon –** Sefydlwch swyddi hyfforddwyr chwaraeon a all fod yn wirfoddol neu rhai a delir yn ar sail achlysurol i ddarparu hebryngwyr ychwanegol i gemau chwaraeon neu i gefnogi staff i reoli dosbarthiadau Addysg Gorfforol a gyfunwyd os bydd Staff yn mynychu gemau.  Cyfyngwch ar nifer y gemau mae'r ysgol yn eu mynychu, ceisiwch weithio gydag ysgolion i ddarparu rhagor o ddigwyddiadau *round robin* gan leihau sawl gwaith y cynhelir gweithgareddau blwyddyn a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynychu gan wneud darparu llai o ddosbarthiadau mewn ysgolion yn haws ei reoli.
- **Gwiriwch yr angen yn ddyddiol.** – Wrth archebu cyflenwi o flaen llaw i sicrhau argaeledd os oes angen, sicrhewch fod yr angen dyddiol yn cael ei

asesu'n llawn a byddwch yn barod i ganslo neu anfon gweithwyr asiantaeth i ffwrdd os nad oes eu hangen.  Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cyflenwi Cynorthwywyr Addysgu lle gallai absenoldeb myfyrwyr hwyluso symud o fewn y tîm Cynorthwywyr Addysgu i ddarparu cyflenwi.

- **Rheoli absenoldeb –** Sicrhau bod yr ysgol yn gyson ac yn gadarn wrth ddilyn y polisi Amser i ffwrdd i reoli ceisiadau am absenoldeb a'r polisi absenoldeb Salwch i reoli absenoldeb salwch.  Ei gwneud yn ofynnol i staff gysylltu dros y ffôn ag uwch aelod penodol o staff a sicrhau bod gweithdrefnau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu dilyn mewn modd amserol a chyson.

- **Cyflenwi Tymor Byr - Goruchwylwyr Cyflenwi –** Ar gyfer ysgolion ag anghenion cyflenwi cyfyngedig ac ar gyfer cyflenwi ad hoc nad yw'n benodol i'r pwnc, mae ymgysylltu â goruchwyliwr cyflenwi trwy asiantaeth o ddydd i ddydd yn ffordd fwy cost-effeithiol o ddarparu cyflenwi nag athro cyflenwi. Os byddwch yn rhoi gwybod i'ch asiantaeth bod hwn yn faes angen, bydd y rhan fwyaf yn gweithio i gynyddu nifer y math hwn o staff sydd ar gael ganddynt a byddant yn rhoi cymorth o ran eu huwchsgilio.

- **Byddwch yn glir beth yw'r costau.**
  Pan nad yw'r angen am gyflenwi yn fyr dymor, ond i gwmpasu swyddi gwag/mamolaeth neu staff addysgu ychwanegol a gyllidebwyd yn y tymor canolig i'r tymor hir, efallai mai asiantaeth yw'r opsiwn mwyaf priodol.

  Fodd bynnag, mae'n bwysig deall cyfanswm y costau, tra bo'r gyfradd ddyddiol leiaf sy'n daladwy i athro asiantaeth yn cael ei gosod ac mae'n ofynnol i asiantaethau sy'n cael eu derbyn i'r fframwaith nodi eu ffioedd, ac nid yw ffioedd pob asiantaeth yr un peth. Mae cost ddyddiol gweithiwr asiantaeth yn cynnwys cyflog gros y gweithiwr asiantaeth, cost yswiriant gwladol y cyflogwr o ran cyflog gros sydd ar hyn o bryd yn 13.8%, a chostau cyfraniad y cyflogwr i gynllun pensiwn gweithle sydd ar hyn o bryd yn 3% a ffi ddyddiol yr asiantaeth. Ar gyfer cyflenwi tymor hir, fel absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch tymor hir, mae dadansoddi'r costau'n dangos pan fo angen mwy na 13 wythnos o gyflenwi addysgu arbenigol, oni bai bod athro ar gytundeb asiantaeth M2 neu M3 gydag asiantaeth sy'n codi ffi o hyd at £40 y dydd yn hafal i neu'n llai na chost cyflogi'r aelod staff hwnnw'n uniongyrchol ar gontract tymor byr oherwydd cost uwch y Cynllun pensiwn athrawon.

  Mae'n hanfodol bod y disgwyliadau ar gyfer staff mewn swyddi asiantaeth hirdymor o ran cynllunio, marcio, presenoldeb mewn DPP, a nosweithiau rhieni yn cael eu diffinio'n glir, heb gyd-drafod mae'n bosib nad yw ysgolion yn derbyn yr un lefel o ymrwymiad neu cymaint o waith/gwaith o'r un ansawdd ag y gallent pe baent wedi cyflogi'r gweithiwr yn uniongyrchol.

Dylid nodi y bydd costau cyflogedig athrawon yn cynyddu o fis Ebrill 2024 gyda chynnydd pellach mewn blwydd-dâl ar gyfer staff addysgu i 28.8%. Bydd hyn yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng costau cyflogedig ac asiantaeth i athrawon a bydd yn gwneud i'r asiantaeth gyflenwi'r opsiwn lleiaf costus ar gyfer cyflenwi yn y tymor hwy yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

- **Gostyngiadau archebu tymor hir**
  Wrth archebu dros gyfnod o 13 wythnos. Gwiriwch a yw'r asiantaeth wedi cynnig gostyngiad fel rhan o'i chais am gael ei chynnwys yn y Fframwaith, ac os ydynt, a yw'n gostyngiad yn cael ei roi ar waith lle bo'n berthnasol.

- **Cyflenwi Cynorthwyydd Addysgu**
  Mae'r Cynorthwywyr Addysgu a ddarperir gan Asiantaethau wastad yn ddrutach na chyflogi'n uniongyrchol.
  Dylai ysgolion ystyried datblygu cronfa o staff Cynorthwywyr Addysgu achlysurol a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol ac sy'n cael eu talu ar sail taflen amser trwy'r gyflogres. Dylid nodi y byddai angen i staff yn y gronfa hon gwblhau o leiaf un shifft bob 6 mis i gynnal eu cyflogaeth, ac argymhellir gofyn i'r staff hyn gynnal eu DBS ar y gwasanaeth diweddaru gan wneud gwiriadau pan fydd cyfnodau hirach heb fod yr aelod staff yn cwblhau shifftiau.

  Lle bo angen yn y tymor hwy, dylai'r staff hyn gael eu cyflogi. Os yw swydd yn gysylltiedig â phlentyn penodol neu os yw pen draw'r penodi'n ansicr, siaradwch â'ch ymgynghorydd Adnoddau Dynol oherwydd gellir cyflwyno contract dros dro â chymalau i alluogi terfynu hyblyg yn lle contract tymor sefydlog. Gellir gweld enghreifftiau o gontractau gwahanol yma contract-types.pdf

- **Trosglwyddo staff asiantaeth i gyflogres y Cyngor**
  Os yw aelod o staff yn cael ei gyflogi drwy asiantaeth ar y fframwaith, cyn belled â bod 4 wythnos o rybudd yn cael ei roi erbyn diwedd yr 8fed wythnos o'r bwriad i drosglwyddo'r gweithiwr asiantaeth i gyflogres y Cyngor, ni ellir gweithredu unrhyw gyfnod asiantaeth estynedig na thaliad.

- **Dewis Asiantaeth**
  Er gall y dewis o asiantaeth fod yn gyfyngedig mewn argyfwng yn ôl argaeledd staff, byddai'n fuddiol i ysgolion geisio sefydlu perthnasoedd gwaith a chronfeydd cyflenwi gydag asiantaethau'n cynnig ffi is. Mae hefyd yn bosibl trafod gydag asiantaeth i leihau ei ffioedd. Wrth wneud hyn fodd bynnag, rhaid i ysgolion beidio â rhannu'r wybodaeth dendro gystadleuol am y ffioedd y mae asiantaethau eraill wedi cytuno iddynt ar y fframwaith. Wrth drafod darpar ymgeiswyr gydag asiantaethau, gofynnwch i'r asiantaeth ddarparu cost ddyddiol y gweithiwr, gan nodi manylion y cyflog, gan gynnwys tâl gwyliau, yswiriant gwladol a Blwydd-dâl a ffi'r asiantaeth. Mae gwahaniaeth o £50 y dydd rhwng y ffi isaf ac uchaf a godir ar y fframwaith.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi anghenion asiantaethau mewn ysgolion.**

**Mae'r argymhellion canlynol yn opsiynau y gellid ymchwilio iddynt yn ganolog i gefnogi ysgolion Sir Gaerfyrddin i reoli eu hanghenion cyflenwi.**

- **Datblygu cronfa cyflenwi mewnol canolog**
  Byddai datblygu cronfa gyflenwi leol gyda chynorthwywyr addysgu a goruchwylwyr cyflenwi yn ffordd fwy cost-effeithiol o ddarparu'r cyflenwi. Gallai hyn fod yn fewnol gyda'r holl ymgeiswyr yn cael eu cyflogi gan CSC, ond nodwyd y byddai hyn yn arwain at lwyth gwaith cynyddol ar gyfer gwasanaethau Gweithwyr Adnoddau Dynol y byddai angen eu hariannu gan ryw fath o ffi neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Fel arall, gallai'r defnydd o'r llwyfan Teacherbooker drwy Lywodraeth Cymru ddarparu modd i'r awdurdod lleol recriwtio i gronfa dalent leol heb gynyddu llwyth gwaith yr adran Adnoddau Dynol a byddai hefyd yn darparu dull o reoli ymgeiswyr a cheisiadau. Byddai staff sy'n cael eu recriwtio i'r gronfa yn cael eu talu ar yr un gyfradd ac yn cael yr un pensiwn â staff presennol, heb y ffi asiantaeth ddyddiol bresennol. Bydd yr ymagwedd hon yn gofyn am ymrwymiad gan yr awdurdod lleol i gefnogi hysbysebu'r cynllun i sicrhau bod gan y gronfa leol ddigon o ddyfnder ac amrywiaeth i ddiwallu ein hanghenion ysgol gwahanol. Ni fyddai arbedion ariannol o ganlyniad i gyflogi athrawon fel hyn oherwydd cost pensiwn Athrawon.

- **Datblygu Prentisiaeth Cynorthwyydd Addysgu/ Goruchwyliwr Cyflenwi -** Byddai datblygu rhaglen brentisiaeth â chymorth o fewn ysgolion Sir Gaerfyrddin gyda ffocws ar ddarparu sgiliau cymorth a rheoli dosbarth o ansawdd uchel a dealltwriaeth o ddatblygiad plant yn sicrhau cyflenwad cryf o ddarpar ymgeiswyr i'n hysgolion a byddai'n codi proffil y proffesiwn i gefnogi recriwtio. Gallai darparu lleoliadau Cymraeg o fewn y cynllun hefyd gefnogi datblygu continwwm dysgu ar gyfer pobl sy'n gadael ysgolion Cymraeg ac sy'n ceisio profiad mewn ysgolion cyn hyfforddi, o bosibl trwy gynllun yn yr ysgol i ymuno â'r proffesiwn addysgu.

- **Opsiynau a chymorth contractau -** Darparu arweiniad clir ar y mathau o gontractau oriau dros dro ac achlysurol a blynyddol y gall ysgolion eu cynnig, gan gynnwys canllawiau ar gysylltu contractau â rhoi'r gorau i ariannu neu gefnogi disgyblion a dychweliad cydweithwyr a enwir. Darparu gwybodaeth am sut y gellir defnyddio swyddi o'r fath ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn osgoi tarfu eang yn sgil diswyddiadau. Darparu arweiniad ar y broses fwyaf effeithlon i recriwtio gweithwyr asiantaeth i swyddi â thâl CSC.

- **Datblygu polisi prawf sy'n addas i'w fabwysiadu gan ysgolion –** Byddai polisi prawf ysgol yn cefnogi ysgolion i reoli pryderon cynnar o fewn cyflogaeth gyda'r bwriad o ddatblygu staff yn gyflym i fodloni disgwyliadau'r ysgol. Byddai hyn yn lleihau effaith cymorth gwael ar fyfyrwyr a byddai hefyd yn lleihau'r holl staff gwahanol y mae myfyrwyr yn eu cael o ganlyniad i'r defnydd presennol o asiantaethau.

- **Cymorth llesiant a gwytnwch -** Archwilio'r opsiynau ar gyfer cymorth llesiant a gwytnwch ar gyfer unedau her uchel, oes potensial am fuddion nad ydynt yn rhai sy'n ymwneud â chyflog i gefnogi cadw staff a recriwtio yn y lleoliadau heriol hyn.